## AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD

**Deilliant trafodaeth rhwng cynrychiolwyr Ffederasiwn Prifathrawon Ysgolion Cynradd Gwynedd a'r Pennaeth Addysg Haf 2010**

1. Y mae'r farn gyffredinol yn nodi bod angen ad-drefnu ysgolion.

2. Y mae ysgol sydd â llai na nifer penodol o blant a'i rhagolygon o safbwynt niferoedd yn isel, yn anghynaladwy. Wrth nodi hyn dylid ystyried cyd-destun ysgol yn ei hardal gan gynnwys a fyddai'r plant yn medru mynd i ysgol arall yn hwylus, llefydd gweigion a niferoedd staff.
Cytunwyd bod ysgol sydd â llai nag ugain o ddigyblion yn y categori yma.

3. Wrth ad-drefnu yn y dalgylchoedd fe ddylid cyflawni'r gwaith i'r graddau y darperir yn briodol o ran sefydlogrwydd ac adnoddau. Dyna haeddiant plant. Dylid edrych ymlaen yn hyderus at ysgolion addas i wynebu her yr G21.

4. Pan adolygir dalgylch dylid ymgyrraedd at y materion a nodir yn uchelgais y strategaeth ond ni ddylid cyflawni hynny trwy wanio cyllidebau presennol ysgolion eraill.

5. Dylid manylu ar gyllido ysgolion i'r graddau yr adlewyrchir gofynion disgyblion ac ysgolion yn eu cymunedau amrywiol yn amgenach ond eto nid trwy wanio cyllidebau ysgolion eraill.

6. Ystyrir bod y broses ad-drefnu bresennol yn araf, yn feichus ac ailadroddus. Ni chredir ei bod yn broses gynaladwy fel ag y mae a dylid ei hadolygu. Ar sail profiad y flwyddyn fe nodir bod y disgwyliad ar ysgolion a'u cymunedau i gyfrannu'n llawn i'r broses yn drwm, a hynny oddi fewn i amserlen gyfyng.

7. Y mae rôl Y Pennaeth mewn ysgol a'r arweiniad a gynigir yn hanfodol. Mae'r amodau gwaith yn dirywio'n gyson oherwydd toriadau cyllidol a'r gofynion ychwanegol cyson.

8. Ar hyn o bryd ni chredir bod gwaith Pennaeth o **arwain ysgol** yn cael y sylw dyladwy a'r flaenoriaeth haeddiannol. Mae cyflawni gwaith datblygol yn gynyddol anodd.

9. Aiff **rheoli ysgol** ag amser. Oherwydd hyn y mae cyflawni'r tasgau dyddiol pan geisir blaenoriaethu dysgu ac addysgu yn anodd a chredir mai **gwneud i drefniadau weithio** a wneir.

10. Credir bod angen edrych ar y gyllideb a ddarperir i gyflogi cefnogaeth weinyddol i ysgolion yn ogystal â'r gefnogaeth ganolog.

11. Dylid anelu at sefyllfa ble darperir mwy o amser digyswllt i bob pennaeth. Y dymuniad fyddai gweld 0.5 o'r wythnos waith yn cael ei glustnodi ar gyfer hyn.

12. Mynegir pryder bod yr ysgolion o bob maint, ond yn enwedig y rhai canolig, yn cael eu gwasgu'n gyllidol ac o'r herwydd yn gwasgu o ran gofynion ar benaethiaid a staff.

13. Teimla'r penaethiaid eu bod wedi eu dal rhwng Yr Awdurdod ar y naill law a'r Llywodraethwyr a'r rhieni ar y llaw arall pan drafodir trefniadaeth ysgolion.

14. Pryderir na fydd arian cyfalaf ar gael i wireddu cynlluniau ad-drefnu at y dyfodol.

15. Os methir penodi Pennaeth i ysgol credir y dylid edrych ar sefyllfa'r ysgol honno y tu allan i'r strategaeth.

16. Credir y dylsai aelodau'r Panel Sirol bresenoli eu hunain ymhob cyfarfod o'r Panel gan gyfrannu'n llawn i'r trafodaethau.

17. Oherwydd yr holl amrywiaeth ym maint ysgolion a'r cymunedau a wasanaethir y mae gwahaniaeth barn yn bodoli ymysg penaethiaid, ond drwy drafodaeth lawn yn y dalgylchoedd, drwy'r Ffederasiwn, y mae cytundeb unfrydol i'r pwyntiau uchod.

Gorffennaf 2010